# Y TINCER

PRIS £1

Rhif 329

Mai 2010

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


## Ras dau geffyl

'Ras dau geffyl' - dyna 'roedd y pamffledi yn darogan wrth i ddau o fro'r *Tincer* mynd benben yn yr Etholiad Cyffredinol diweddar. Eisteddai'r Rhyddfrydwr Mark Williams, y Borth, ar fwyafrif o ychydig dros ddau gant o bleidleisiau, ac yn ei erbyn safai'r Pleidiwr, Penri James, brodor o Dirymynach a chyn-gynghorydd y fro. Yn wir, yr oedd gwybodusion megis Dr Denis Balsom (o'r *Wales Yearbook*) yn rhagweld buddugoliaeth bosib i Blaid Cymru, a'r disgwyl oedd y byddai'r frwydr yn un agos a chyffrous. Fel y gwyddem erbyn hyn, nid felly y bu, â'r Blaid yn rhoi'r ffidil yn y to yn bell cyn cyfrif y bleidlais olaf. Roedd y si wedi cyrraedd y sgrin teledu toc wedi hanner nos, a'r newyddiadurwyr yn ein hysbysu o'r canlyniad disgwyliedig. Unwaith eto, roedd etholaeth Ceredigion wedi syfrdanu pawb a phrofi ei hunan yn greadur anwadal - 'sgubwyd Mark Williams i fuddugoliaeth gyda mwyafrif o dros 8000, gan gymryd union 50% y bleidlais a chwyddo ei bleidlais bersonol i 19,139. Nid ers dyddiau Roderic Bowen wedi'r Ail Ryfel Byd y mae'r Rhyddfrydwyr wedi ennill mwyafrif o'r fath yng Ngheredigion - cyfnod pan na fyddai'r Ceidwadwyr yn cystadlu'r sedd.



Hystings etholiad  Llun: Marian Delyth

Ofer fyddai ceisio cynnig esboniad manwl o'r bleidlais ddiweddaraf yma, ond wrth amcan tarddle'r 6,000 o bleidleisiau ychwanegol a enillwyd gan Mark Williams, mae'n bosib edrych i sawl cyfeiriad. 'Roedd pleidlais Penri yn bell o ddymchwel, ond wrth ennill 10,815 fe gofnododd 2,000 yn llai na'i ragflaenydd Simon Thomas. Mae'n ymddangos hefyd fod y mwyafrif llethol o'r 2,000 o bleidleiswyr newydd yn yr etholaeth wedi gosod croes wrth ochr enw'r rhyddfrydwr. Rhaid ystyried hefyd pleidlais y Torïaid a Llafur, a'r ddwy blaid yn cynnig ymgeiswyr oedd, tan yn ddiweddar, yn eu clytiau. Er i'r Ceidwadwyr gofnodi ychydig dros eu pedair mil arferol, fe gwympodd pleidlais y Llafurwyr dros ddwy fil, gan awgrymu i nifer helaeth o'u cefnogwyr arferol ddewis pleidleisio'n dactegol dros Mark Williams - cam gwag iddynt hwy, o ystyried penderfyniad ef a'i blaid i glymbleidio â'r Torïaid.

Dyma efallai'r canlyniad mwyaf annisgwyl: y tro cyntaf ydyw i Geredigion ethol aelod seneddol sydd yn rhan swyddogol o'r Llywodraeth ers 1966, pan enillodd Elystan Morgan ei sedd yn San Steffan. Fe fydd hi'n ddiddorol gweld os caiff y trefniant newydd yma yn San Steffan ddylanwad ar wleidyddiaeth ein sir yn y blynyddoedd i ddod. A ddaw eto haul ar fryn i bleidiau eraill?

Mae yna sibrydion o'r naill ochr yn awgrymu rhai o'r rhesymau dros y gweddnewid diweddaraf yn etholaeth Ceredigion. Yn bell o flaen llaw cafwyd ambell sylw o gyfeiriad Plaid Cymru y byddai pleidlais y myfyrwyr yn debyg o effeithio ar dynged y sir, gyda'r Rhyddfrydwyr yn gwneud eu gorau glas i'w hysgogi. Ac er mai dyddiau cynnar yw hi, a'r *post-mortem* yn bell o gael ei gwblhau, yn ôl y Blaid 'does dim dau fod y dadleuon ar deledu wedi effeithio ar eu gobeithion. Roedd 'Cleggmania' wedi llethu Ceredigion 'run fath a phobman arall, ond debyg iddo barhau fan hyn wrth iddo ballu mewn mannau eraill. Heb os, mae Ceredigion yn enghraifft berffaith o annhegwch y ffurf bresennol o gynnal y dadleuon yma, a rhaid gobeithio erbyn y tro nesaf y bydd BBC o leia' yn cynnig platfform cydradd i'r Pleidiau Cenedlaethol a'r Blaid Werdd (ac achub ni rhag sesiwn arall o dôn gron y triawd arferol!). Ond ni ddylem anghofio ychwaith rheswm pennaf am lwyddiant Mark Williams: ei ymroddiad a'i ymdrechion fel cynrychiolydd y sir. Fel sawl 'mewnfudwr' di-Gymraeg o'i flaen, fe godwyd ambell gwestiwn amdano, ond yn ddiamau mae wedi ateb gofynion ei etholwyr a gweithio'n ddiflino ers ei ddyfodiad yma. Mae Ceredigion yn disgwyl ymlaen i gyfnod arall o wasanaeth gan yr enillydd teilwng.

**HLW**

## Eisteddfod lwyddiannus





Anwen Pierce, enillydd y gadair;  Megan Lewis, enillydd Tlws yr Ifanc a Dai Rees Morgan a anrhegwyd  ar ôl bod yn arweinydd yr Eistedfod ers 1964.  Lluniau: Arvid Parry Jones

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 329 | Mai 2010



Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD -** Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD -** Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Paul Bevan, Felin Ddewi, 4 Glan-ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820 583
bevan.paul@gmail.com

**HYSBYSEBION -** Rhodri Morgan, Maes Mieri, Llandre SY24 5BS (01970) 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**TREFNYDD Y CYFEILLION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER -** Anwen Pierce

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch,
☎ 623660
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll,
Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD MEHEFIN 10 a MEHEFIN 11 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI MEHEFIN 24

**MAI 21** Nos Wener Noson Goffi. Pwyllgor Yr Henoed Llandre a Bow Street yn Neuadd Rhydypennau o 7:00-9:00

**MAI 21** Nos Wener Grŵp 60+ Trefeurig yn dadorchuddio murlun sy'n darlunio Bro Trefeurig Uchaf, sef rhan uchaf cymuned Trefeurig yn Hen Ysgol Trefeurig am 7.00. Mynediad am ddim. Darperir lluniaeth ysgafn.

**MAI 29** Nos Sadwrn Barbeciw yn Neuadd yr Eglwys, Capel Bangor o 6 pm - 8.30 pm. Croeso cynnes.

**MAI 30** Bore Sul Gwasanaeth ym Mhabell Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llanerchaeron am 10.00

**MAI 31 – MEHEFIN 5** Eisteddfod yr Urdd 2010 Ceredigion

**MAI 31** Dydd Llun Trec Rheidol; taith ar gefn ceffyl; cychwyn ger y Ganolfan Groeso Cwmrheidol. Elw i Sioe Capel Bangor a'r Cylch. Manylion oddi wrth Nerys Daniel 01970 880691.

**MEHEFIN 1** Nos Fawrth Cyfarfod PACT yn festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.00

**MEHEFIN 2** Nos Fercher Pwyllgor Sioe Capel Bangor a'r Cylch yn Neuadd yr Eglwys am 8.00y.h. Croeso cynnes i bawb.

**MEHEFIN 12** Dydd Sadwrn Sioe Aberystwyth a Sir Ceredigion yng Ngelli Angharad. Am fanylion gweler http://www.aberystwythshow.com/

**MEHEFIN 14** Nos Lun Trip Merched y Wawr Rhydypennau i Tŷ Siamas, Dolgellau

**MEHEFIN 16** Dydd Mercher Trip hanner diwrnod Pwyllgor yr Henoed Llandre a Bow-street i Henllan, Llandysul. Cychwyn am 1:00 y.p.

**MEHEFIN 18** Nos Wener Barbeciw yng nghartref Tregerddan am 6.30.

**MEHEFIN 19** Dydd Sadwrn Taith Cymdeithas y Penrhyn i Fro Morgannwg dan ofal Iorwerth Davies. Enwau i Ceris Gruffudd.

**MEHEFIN 23** Dydd Mercher Trip blynyddol Cymdeithas Gymraeg y Borth.
Enwau i Wyn Morris (01970) 820939 neu Llinos Evans (01970) 871615.

**MEHEFIN 24** Nos Iau Prom ysgolion cynradd Ceredigion - Côr a cherddorfa a rhai o enillwyr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.15

**MEHEFIN 25** Nos Wener Caws, gwin a chân yn Eglwys Elerch, Bont-goch.

**MEHEFIN 26** Nos Sadwrn Cyngerdd Sioe'r Cardis gydag Ifan Griffith, Y Tri Thenor, Iwan Parry ac Einir Dafydd a'r Band ar Fferm Cwmwythig, Capel Bangor. Bar a barbeciw gyda Byrger Dai Jones, Llywydd y Sioe am 7.30. Tocynnau £10 Elw at Sioe'r Cardis 2010.

**GORFFENNAF 2** Nos Wener Noson Goffi flynyddol Capel Noddfa yn Festri`r Capel am 7.00.

**GORFFENNAF 3** Dydd Sadwrn Te hufen a mefys yn Neuadd yr Eglwys, Penrhyn-coch.

**GORFFENNAF 9** Nos Wener Barbeciw Capel y Garn yn Carreg Cennen, Dolau am 6.30 Oedolion £5 Plant £1 Croeso i bawb.

**AWST 8** Dydd Sul Cinio Sul canol dydd gan Bwyd Bethan mewn pabell ar lawnt Gogerddan. Pris £17 am dri chwrs. Yr elw tuag at Ymchwil y Galon a Ffagl Gobaith. Croeso cynnes i bawb. Tocynnau ar gael o Siop Ffagl Gobaith, Stryd y Popty, Eirwen Hughes 828 398 neu Mair Jenkins 828 263

## Ymddiheuriadau

Yn anffodus nid oedd lle i bopeth a dderbyniwyd yn y rhifyn hwn — ymddiheuriadau. Gobeithir cynnwys rhai o'r erthyglau yn y rhifyn nesaf. (Gol.)

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £10 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Y Tincer ar dâp** - Cofiwch fod modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Os hoffech chi dderbyn copi o'r tâp, cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun , Aberystwyth, SY23 3BB 01970 612984.

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer Mis Ebrill**

**£25** Rhif (60) Elizabeth Lewis, Dolgamlyn, Capel Bangor.
**£15** Rhif (241) Owen Watkin,19 Maes Henllan, Llandre.
**£10** Rhif (151) Martha Rowlands, Rhos-goch, Capel Madog.

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan ein golygydd. Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod. Am restr o Gyfeillion y Tincer 2009/10 gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

### RHAGHYSBYSIAD

Nos Sadwrn Gorffennaf 17 Cyngerdd gan Gôr Merched y Gaiman (arweinydd: Edith MacDonald; cyfeilydd: Hector Ariel MacDonald a'r unawdwyr Billy Hughes a Marcelo Griffiths ym Morlan, Aberystwyth.

### YN EISIAU – CANTORION

Mae Cantre'r Gwaelod, parti meibion (o tua 20 aelod) sy'n ymarfer ar nosweithiau Sul am 8.00 yn festri Capel y Morfa, Aberystwyth, yn chwilio am aelodau newydd. Yt arweinydd yw Eleri Roberts, ac maent yn canolbwyntio ar gyflwyno alawon gwerin,eitemau cerdd dant ac ychydig ganeuon ysgafn Cymraeg. Caiff yr aelodau gryn bleser yn diddanu cymdeithasau lleol mewn noson lawen a chyngerdd, yn ogystal â chystadlu o bryd i'w gilydd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn yr ŵyl Gerdd Dant.

Bydd croeso i gantorion o bob gallu a llais, ond byddai croeso arbennig i faswyr. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â'r ysgrifennydd, Ceris Gruffudd, Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch.Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE 01970 828017 Rhoshelyg@btinternet.com am fwy o wybodaeth

### Croeso

Fel y gwelwch, mae poster Croeso i Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2010 gyda'r papur y mis yma. Croesawu y miloedd o ymwelwyr fydd yn tyrru i Geredigion dros yr wythnosau nesaf ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Ceredigion rhwng y 31 Mai a'r 5 Mehefin yw pwrpas y poster ac mae Pwyllgor Cyhoeddusrwydd yr Eisteddfod a threfnwyr yr ŵyl yn gofyn yn garedig i bawb roi'r poster mewn lle blaenllaw er mwyn dangos y croeso cynnes ym mhob man.

### Gwena mae'n Ddydd Gwener

**Annwyl Olygydd,**
'Rydym ar fin cychwyn ar brosiect newydd a chyffrous yma yn y Llyfrgell Genedlaethol, sef: 'Gwena mae'n Ddydd Gwener'Byddwn yn trefnu gwahanol ddigwyddiadau amrywiol a diddorol yng Nghaffi Pen Dinas gan obeithio sbarduno digwyddiadau'r penwythnos.Gan fod cyfoeth o dalentau lleol yn nalgylch Aberystwyth byddwn yn gwahodd unawdwyr, partïon lleisiol, grŵpiau offerynnol ac hefyd dawnswyr traddodiadol i berfformio am oddeutu 45 munud. Dyma gyfle gwych i roi llwyfan i dalentau amrywiol y sir yn un o adeiladau eiconaidd Cymru. Bydd hefyd croeso cynnes i ddarllenwyr Y Tincer i ymuno â ni ar y dydd Gwener olaf o bob mis am 3.00p.m i fwynhau a gwerthfawrogi amrywiaeth o ddoniau.
Yn gywir,
Emyr Jones a Siân Henson (632545)

**Annwyl Olygydd,**
Gorsedd y Dreigiau
Oes rhai o'ch darllenwyr yn ysu i ddechrau busnes newydd, neu am ddatblygu syniad cyffrous o fewn busnes sydd wedi dechrau o fewn y pum mlynedd diwethaf? Os oes, dyma gyfle unigryw iddynt ennill PUM MIL O BUNNOEDD a chyngor busnes i droi pethau'n realiti.

Daw'r agoriad trwy gystadleuaeth Gorsedd y Dreigiau (sef panel o entrepreneuriaid amlwg Cymreig sy'n dod at ei gilydd ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol i feirniadu cystadleuaeth unigryw i siaradwyr Cymraeg).

Am fanylion pellach ewch i'n gwefan: www.menterabusnes.co.uk neu ffoniwch Menter a Busnes ar 01970 636280. Y dyddiad cau i dderbyn ceisiadau yw'r 2il o Orffennaf 2010.

Trefnir y gystadleuaeth gan Menter a Busnes ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad, a gyda chymorth cwmni Telesgôp.

Edrychwn ymlaen at dderbyn ceisiadau eich darllenwyr.

Llawer o ddiolch
Eirian Davies, Cydlynydd

# 30 Mlynedd 'Nôl



Wythawd enwog y Borth yn diddori'r gynulleidfa fawr yn Neuadd Rhydypennau, noson goffi'r Tincer ar Fai 9fed. Un o'r cantorion yw Mrs Dora Richards, llywydd y noson. Llun: Hugh Jones
Dyma'r enwau yr wythawd yn y llun — John Phillips, Alun Owen, Dora Richards, Tegwen Pryse, Sybil Humphries, Eirwen Bowen, Berwyn Lewis a Gwilym Davies. Arferent gael eu hyfforddi gan Peg Owen a'r gyfeilyddes oedd Nancy Thomas (Bardsey).



Dydd Mercher 14eg Mai cynhaliwyd Ffair Wanwyn Ysgol Gynradd y Borth. Yn y llun gwelir (rhes gefn o'r chwith) y Prifathro, Mr Alun John, Mrs Stevens, Mr E.M. Stevens, cyn brifathro yr Ysgol a Dr Cadman, trysorydd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr Ysgol. Yn ystod y prynhawn cyflwynwyd darlun o'r Borth i Mr Stevens ar ei ymddeoliad fel athro a phrifathro yr ysgol gan Huw Tipton,a chyflwynodd Sarah Smith dorch o flodau i Mrs Stevens. Bu Mr Stevens, a agorodd y Ffair yn swyddogol, yn gysylltiedig â'r Ysgol am 30 o flynyddoedd cyn ei ymddeoliad ar ddiwedd tymor y Pasg. Llun: Bill Evans.
(O'r Tincer Mai 1980)

ytincer@googlemail.com

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

# Y BORTH

## Suliau`r Gerlan Mehefin

6 2.00 Parch. Wyn Rhys Morris. Cymundeb.
13 5.00 Parch. Richard Lewis
20 10.00 Undebol yn Soar
27 Uno yn Y Babell am 2.00

## Tongue Ties

Perfformiodd Côr y Gors am ddwy noson yn olynol ym mis Mai yn Theatr y Castell i gynulleidfa anrhydeddus iawn. Gwaith cerddorol newydd sbon gan Nick Jones ar gyfer côr ac ensemble cerddorfaol yw'r darn a berfformiwyd, sef Tongue Ties. 'Gwobr Cymru Creadigol' oedd y man cychwyn, prosiect a noddwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac a alluogodd Nick i ymchwilio i'w wreiddiau Cymreig ei hun a chychwyn ar syniadau a chaneuon rhoddodd fodolaeth i Tounge Ties.

Cadwyn o ganeuon yw Tongue Ties, ag iddynt themâu cysylltiedig- perthyn, ymdoddi i gymdeithas, cyfathrebu a'r iaith Gymraeg. Hwn yw prosiect cerddorol mwyaf uchelgeisiol y côr hyd yn hyn. Drwyddi draw fe glywn leisiau gwahanol, lleisiau mewnol a llafar, sy'n cyfleu syniadau a theimladau am berthynas â'r ieithoedd a siaredir yn y lle a elwir yn 'gartref' bellach. Mae'r darn yn wahanol i'r ffordd y mae'r côr wedi perfformio yn y gorffennol, mae'n fwy gweledol, gyda'r perfformwyr wedi eu cuddio'n rhannol tu ôl i sgriniau ac arnynt oleuadau, delweddau a geiriau sy'n gyfeiliant i'r gerddoriaeth.

Roedd hi'n noson lwyddiannus dros ben ac aelodau'r côr, yn ogystal â'r gynulleidfa, wrth gwrs, wedi mwynhau bob munud.

## Eglwys Sant Mathew

**Cyfarfod Agored Blynyddol**
Cynhaliwyd Cyfarfod Agored Blynyddol Eglwys Sant Mathew nos Lun, 19 Ebrill, yn Neuadd Gymunedol Y Borth. Y Cadeirydd oedd y Parchg Cecilia Charles, Ficer Eglwys Sant Mathew.

Ar ôl derbyn adroddiadau gan Mrs Amanda Trubshaw (Ysgrifennydd) a Mr J. Glynne Evans (Trysorydd), ail-etholwyd swyddogion ar gyfer y flwyddyn i ddod, fel a ganlyn:

Warden y Ficer: Margaret Griffiths
Warden y Bobl: Joy Cook
Ysgrifennydd: Amanda Trubshaw

Ymddeolodd Mr J. Glynne Evans (Trysorydd), ar ôl gwasanaeth gwerthfawr i'r Eglwys am dros dri deg o flynyddoedd. Diolchwyd iddo am ei waith a'i wasanaeth hir a ffyddlon. Etholwyd Is-Drysorydd Jo Jones yn Drysorydd yn ei le. Terfynwyd y cyfarfod â'r Gras.



## Parti Pen blwydd

Dydd Sul, 25 Ebrill, ymunwyd â chynulleidfa Eglwys Sant Mathew, yn y gwasanaeth boreol, gan blwyfolion Eglwys Sant Mihangel, Eglwys-fach. Gofalwyd am y gwasanaeth gan y Ficer, y Parchg. Cecilia Charles ac fe ganwyd eitem gan blant yr Ysgol Sul, wedi'u harwain gan eu hathrawes, Joy Cook.

Dilynwyd y gwasanaeth gan barti bach yng nghefn yr Eglwys, gyda bwffe blasus wedi'i ddarparu gan aelodau o'r ddwy Eglwys. Parti syrpreis oedd, i longyfarch Mr. Michael James (Organydd yr Eglwysi) a Mr J. Glynne Evans (cyn-Drysorydd Eglwys St Mathew), a ddathlodd ill dau eu pen blwyddi yn wyth deg oed yn ddiweddar, ac i nodi ymddeoliad Mr Glynne Evans. Rhoddwyd cyflwyniadau iddynt ar ran aelodau'r Eglwysi, ac, ar yr un pryd, fe gyflwynwyd anrheg i Mr Bert Birch, sydd erbyn hyn dros ei naw deg oed, ac a wasanaethodd yntau fel Warden Eglwys Sant Mathew am flynyddoedd lawer.

Hoffai'r prif westeion, a phob un arall oedd yno, ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at achlysur mor bleserus a chofiadwy.
**E.E.**

## Y Morglawdd - y diweddara'

Mae'r llong llwyd yn dal i hwylio'n agos i'r traeth, ac mae na ymwelwyr newydd ar y lan - Caterpillars melyn, mawr a bach yn tyrchu drwy'r tywod heibio i ddynion yn cloddio'n ddwfn (20 medr) i waelodion y traeth. Maent wrthi'n ddiwyd yn casglu gwybodaeth angenrheidiol er diogelwch y morglawdd.

Nôl ar y tir yn Aberaeron a Chaerdydd ma na weithgaredd o fath arall. Mae Cyngor Ceredigion wedi derbyn 17 cais gan gontractwyr ac wedi penodi 7 i'r rhestr fer. Disgwylir amcangyfrif fanwl gan y 7 yn fuan, yna bydd yna fis o feddwl ac yna eto — penderfyniad......... gobeithio. Mae na bryder o hyd nad yw Cyngor Ceredigion wedi rhoi caniatâd cynllunio i'r Morglawdd. Mae'r senedd yng Nghaerdydd hefyd yn simsanu am eu cyfraniad i'r fenter. Y 'Reef ' yw'r maen tramgwydd, h.y. a ddylai'n llywodraeth roi arian i rywbeth sy'n 'adloniant' yn ogystal a bod yn amddiffynnol? Fe gofiwch fod y 'reef' yn mynd i greu tonnau diogel ac o'r herwydd denu syrffwyr i'r Borth gan roi hwb i'r economi.

Ein gobaith yw y bydd y cyfan yn cael ei ddatrus mor fuan â phosib ac y cawn yr hyn sydd wedi bod ar y gweill ers blynyddoedd maith.

## Y Ffarmers - Llanfihangel y Creuddyn

Dymunwn yn dda i Esther a Rhodri sydd newydd symud o'r Borth i gychwyn ar eu menter newydd yn rhedeg tafarn Y Ffarmers. Eu bwriad yw gweini bwyd gan ddefnyddio cynhwysion lleol a thymhorol mewn awyrgylch Gymreig. Maent am gau yr ystafelloedd bwyta am sbel fach cyn bo hir i neud gwelliannau (ond bydd y dafarn ei hun yn dal ar agor) - felly gwell ffonio cyn mynd! Rhif ffôn y Ffarmers yw 01974 261275.Pob dymuniad da iddyn nhw i gyd fel teulu.

## Agoriad Oriel 'Adrift'

Braf yw adrodd fod oriel arall ychwanegol wedi agor yn Y Borth. Agorwyd Oriel Adrift yn swyddogol ar nos Wener y 16eg o Ebrill ar safle'r siop bapur gynt. Sarah Pugh a Frederica Barratt yw perchnogion yr oriel newydd hon sy'n gwerthu lluniau gwreiddiol, gwaith coed, gemwaith, crochenwaith a phob math o drugareddau diddorol. Dyma enghfaifft arall o'r dalent arbennig sydd ar gael yn y pentre, a dymunwn bob lwc i'r ddwy ohonynt yn eu menter newydd.
**R.W**

## Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Megan Deanna Clift, Station House, ar lwyddo yn ei harholiad ffidil Gradd Un, o dan hyfforddiant un o athrawon llinynnol teithiol y Sir, Isobel McGuiness. Mae hefyd newydd ddechrau ar ei hastudiaethau theori gydag Eurgain Rowlands.

## Amnest rhyngwladol

Ar Ebrill 24ain, yn Neuadd y Borth, cynhaliwyd noson i godi arian i Amnest Rhyngwladol. Disgo gwisg ffansi 60au a 70au oedd thema'r noson a drefnwyd gan Jules Montgomery a Jenny Williamson Evans. Codwyd £250 o bunnoedd a chafwyd raffl arbennig gyda gwobrau hael yn rhoddion gan Jonno Young, Ruth Edwards, Ruth Packham a Casper. Yn ogystal â chodi arian drwy'r noson gymdeithasol bwriad Jenny a Jules yw gwneud taith beics ar draws Lloegr o Whitehaven i Fae Whittley yn y gobaith o godi mil o bunnoedd. Dywed Jenny ei bod yn teithio i'r gwaith ar ei beic yn rheolaidd ac mae felly'n gobeithio y bydd seiclo rhyw hanner can milltir y diwrnod am dridiau yn bosib- er yn waith caled! Os hoffech rhoi help llaw i Jenny a Jules gyrraedd eu nod, mae'n bosib defnyddio'r linc www.justgiving.com/Jenny-Williamson



# DYSGWR Y MIS

**Beth yw eich enw?** Fy enw i yw Jono Young

**Faint yw eich oed?** Rydw i'n 45 mlwydd oed.

**Ers faint ydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg?** Dechreuais i ddysgu Cymraeg pan ddaethon ni i fyw yng Nghymru yn 1971.Roeddwn i'n saith oed.

**Ble oeddech chi'n dysgu Cymraeg?** Roeddwn i'n dysgu Cymraeg yn yr ysgol (Ysgol Gynradd Pen-uwch) a thrwy chwarae gyda ffrindiau.

**O le ydych chi'n dod yn wreiddiol?** Rydw i'n dod o East Grinstead, Sussex yn wreiddiol, a symudais i



Gymru gan bod fy rhieni am ddechrau ffermio.

**Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg?** Oherwydd o'r diwrnod dechreuais i fynd i'r ysgol, doedd dim dewis gyda fi! 16 o blant oedd yn yr ysgol a doedd y rhan fwyaf o blant ddim yn siarad Saesneg-ro'dd e fel symud i wlad dramor. Doedd dim dewis da fi ond siarad Cymraeg. Symudon ni wedyn i Ffair-fach wrth ymyl Llandeilo ac es i'n syth i'r ffrwd iaith gynta yn yr ysgol honno!

**Pryd, neu gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg?** Rydw i'n siarad Cymraeg gyda rhai o fy ffrindie a rhai o'r teulu. Hefyd, pan rydw i'n siopa, os bydd y person sy'n gweithio yn y siop neu swyddfa yn gallu siarad Cymraeg hefyd. Hefyd weithie pan rydw i'n gweithio ( fel saer), os yw fy nghwsmer yn siarad Cymraeg gyda fi. Rydw i hefyd yn hoffi darllen cylchgronau ac erthyglau Cymraeg yn achlysurol.

# CLWB GOLFF Y BORTH AC YNYS-LAS

## Canlyniadau diweddar

Sadwrn 10fed Ebrill — Cystadleuaeth Medal
1af Ioan Lewis (Bow Street) 77:12:65; 2il Daniel Basnett (Bont-goch) 77:7:70; 3ydd Chris Davies (Clarach) 101:29:72

Sul 11eg Ebrill — Cystadleuaeth Stableford
1af Ben Slater (Y Borth) 37 pwynt (9 cefn); 2il Sion Ewart (Bow Street) 37 pwynt; 3ydd Chris Davies (Clarach) 34 pwynt

Sul 25ain Ebrill — Cystadleuaeth Bogey
1af Gwenno Morris (Penrhyn-coch) +4; 2il Ioan Lewis (Bow Street) +3; 3ydd Gethin Morgan (Pisgah) +1

## Canlyniadau Medal Misol

**Mawrth**
1af Zach Galliford (Y Borth) 71:1:71; 2il Angharad Basnett (Bont-goch) 88:12:74 (9 cefn); 3ydd Ioan Lewis (Bow Street) 86:12:74

**Ebrill**
1af Gethin Morgan (Pisgah) 94:22:72; 2il Andrew Gittins (Llanbadarn Fawr) 94:17:77; 3ydd Angharad Basnett (Bont-goch) 90:12:78



**Gross gorau**: Zach Galliford (Y Borth) 74

Yn ystod mis Ebrill dewiswyd Zach Galliford i chwarae yn y cystadleuaeth "Quadrangular" i dîm Cymru o dan 16 oed yn erbyn yr Alban, Iwerddon a'r Iseldiroedd. Chwaraewyd y gêm eleni yn yr Iseldiroedd ar gwrs arbennig Nunspeet. Roedd tîm Cymru yn anffodu i golli ar y twll diwethaf i'r Iwerddon.

Yn dilyn y gêm bedeironglog aeth Zach ymlaen i lwyddo i ennill Pencampwriaeth Canolbarth Cymru a gynhaliwyd dros benwythnos 17 a 18 Ebrill ar gyrsiau Aberdyfi a'r Borth ac Ynys-las.

Ar ddydd Sadwrn 1af Mai enillodd tîm Yr Adran Iau yn erbyn tîmau'r Dynion a'r Boneddigesau yng nghystadleuaeth Y Woodridge Salver. Y canlyniadau oedd Yr Adran Iau 23 pwynt, Tîm y Dynion 16 pwynt a Thîm y Boneddigesau 15 pwynt.

Llun: tîm yr Adran Iau. (Rhes gefn ch. i'r dd.): Luke Williams, Rhodri ap Dafydd, Daniel Basnett, Jacob Billingsley, Angharad Basnett. (Rhes flaen ch. i'r dd.): Gethin Morgan, Andrew Gittins, Zach Galliford, Ioan Lewis. Yn absennol o'r llun Steffan Richards.

# LLANDRE

## Merched y Wawr Llanfihangel Genau'r-glyn

Mis Mawrth dilyn yr afon Gwy ar ei thaith o'i tharddiad ym Mhumlumon, trwy Loegr, allan i'r môr ym Mryste trwy lygaid Gwenno Watkin oedd thema'r noson. Bu hi ac Owen yn cerdded y daith yn dilyn llwybr yr afon. Wrth edrych ar y lluniau cawsom sawl hanesyn bach diddorol gan Gwenno am yr ardaloedd y buodd yn ymweld â nhw. Diolch yn fawr iddi am noson hyfryd ac i Dreftadaeth Llandre am fenthyg yr offer pwrpasol i ddangos y lluniau.

Buom yn ymweld â'r arddangosfa yn Eglwys Llanbadarn ym mis Ebrill. Mae Eglwys Llanbadarn yn un o brif eglwysi'r ardal ac mae yna arddangosfa barhaol ddiddorol a chwaethus. Daeth Mr Dai England, aelod o'r eglwys, atom i sôn ychydig am yr eglwys a buom yn rhyfeddu ar yr adeilad hynafol ac hanesyddol yma. Diolch i Mair a Dai England am eu help ac i Llety Parc am y croeso. Rwy'n siŵr i bawb fynd adre yn fodlon iawn.

## Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Margaret Thomas, Sŵn y Nant, Lôn Glanfred a fu yn Ysbyty'r Waun, Caerdydd yn derbyn triniaeth. Da yw deall ei bod yn ôl yn Ysbyty Bron-glais, a dymunwn wellhad buan iddi.

## Dyweddïo

Llongyfarchiadau i James Henley, Sunmead, Lôn Glanfred a Amy Kennedy, ar eu diweddiad y mis diwethaf.

## Babi Newydd

Croeso i Enid Angharad, babi cyntaf Lynwen a Richard Evans, Llawr y Glyn, Lôn Glanfred. Wyres i Elen Evans, Erw Las, Bow Street.



Llongyfarchiadau calonnog i Dafydd Rhys Roberts, Maes y Blodau, Llandre, ar lwyddo gyda chlod yn ei arholiad theori cerdd, Gradd 5. Ar gyfer yr arholiad theori, bu Dafydd yn cael gwersi gydag Eurgain Rowlands, Y Borth, ond bydd y cymhwyster hwn yn galluogi Dafydd i fynd yn ei flaen i sefyll arholiad pres Gradd Wyth, dan gyfarwyddyd ei athro pres, Alan Phillips.

# PEN-LLWYN A CAPEL BANGOR

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn fel ardal â Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Bank,Mrs Margaret Hayward, Gwelfor a Mr a Mrs Aled Lewis, Ystrad a'r cysylltiadau oll yn eu profedigaeth ddiweddar o golli mam a mam-gu annwyl iawn — Mrs Megan Crees,Gwelfor.

## Genedigaeth

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Joy a Darren Mathews, 6 Stad Pen-llwyn, ar enedigaeth mab bach arall, brawd newydd i Ryan a Iestyn.

## Swydd newydd

Pob hwyl i Gwennan John, Cyncoed, sydd newydd ddechrau ar ei swydd newydd fel cynorthwy-ydd yn y theatr yn Ysbyty Bron-glais.

## Cyfarchion Pen blwydd

Pen blwydd hapus i Mrs Dol Roberts, Stâd Pen-llwyn, ar y 10fed o Fehefin.

Cyfarchion hwyr i Mr Richard Evans, Exchange, sydd wedi dathlu ei ben blwydd yn 80 mlwydd oed ar y 6ed o Fai. Llongyfarchiadau Dick, beth yw'r gyfrinach i gadw i edrych mor ieuanc?

## Damwain

Bu Mr a Mrs Richard Hogger, Plas Melindwr, ar eu gwyliau yn ddiweddar yn Jersey, i ddathlu eu priodas ruddem. Cafodd Mr Hogger gwymp ar y stryd, a thorri asgwrn yn ei benelin. Cafodd lawdriniaeth yn yr Amwythig a bu yn eithaf poenus. Dymunwn iddo wellhad buan.

## Marwolaeth

Hunodd Mrs Margaret Annie Crees ( Megan ), Gwelfor, Pen-llwyn, yn dawel yn Y Coetsiws, Cwmcynfelin, ar yr 20fed o Ebrill, yn 92 mlwydd oed. Bu ei hangladd yng nghapel Pen-llwyn ar Fai 1af dan ofal y Parchg Ifan Mason Davies. Ar fore'r Sul canlynol rhoddodd Mrs Heulwen Lewis y deyrnged ganlynol iddi, a Mr Martin Davies a lediodd yr emyn coffa.

Gyda thristwch y cofiwn y bore yma, am farwolaeth ein haelod hynaf, sef Mrs Megan Crees. Er na fu yn mynd a dod yn ein plith am dipyn o amser, aelod ffyddlon iawn a fu am flynyddoedd maith. Ni



cheisiaf ymhelaethu ar y deyrnged hardd a gafodd ei chyflwyno i ni yn ei harwyl ddoe, gan y Parchg Ifan Mason Davies, prif thema y neges oedd diolchgarwch.

A dyna a wnawn ninnau y bore yma — diolch am ei gwasanaeth, diolch am ei ffyddlondeb, diolch am ei charedigrwydd, a diolch am yr hyn a fu, i bob un ohonom. Pleser oedd cydweithio â hi mewn llawer maes o waith cymdeithasol yn ogystal a gwaith ymarferol o fewn yr eglwys.

Ni fu yn dda ei hiechyd ers rhai blynyddoedd bellach, ond er hynny roedd yn siriol a diolchgar am bob ymweliad â hi yng Nghwmcynfelin. Bu yn adrodd darn o emyn neu salm hyd yn ddiweddar iawn. Roedd y rhain ar ei chof ers plentyndod, ac yn dal yn glir yn y meddwl bron i'r diwedd gyda ychydig bach o help gydag ambell air.

Cydymdeimlwn yn fawr â chi fel teulu, Aeronwy, Phyllis a Margaret, yr ŵyrion a'r gorŵyrion a'r teulu oll yn eich hiraeth.

Ar adeg fel yma, da yw medru cydnabod mai yr Arglwydd yw ein Bugail, ac na fydd eisiau arnom — pwyswn arno am gynhaliaeth, ni chawn ein siomi byth.
"Pwyso ar Iesu, dyna gryfder
Sydd yn dal y pwysau i gyd"
Coffa da am un o'r ffyddlonaf rai.

## Diolch

Dymuna merched y ddiweddar Megan Crees ddiolch yn gynnes iawn i'w perthnasau, cymdogion a chyfeillion am bob caredigrwydd ac arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn ddiweddar, - am gardiau lu, galwadau ffôn, ymweliadau a'r blodau hyfryd a dderbyniwyd. Diolch i BAWB am eu presenoldeb yn yr angladd, am gyfraniad pob un o'r gweinidogion, i Mr Selwyn Evans Trefnydd Angladdau, ac i Elen Pen-cwm a'i modryb Anti Margaret am drefnu yr arlwyaeth wedi'r angladd. Diolch hefyd am gyfraniadau tuag at Gapel Pen-llwyn, yn lle blodau. Danfonir diolch personol pan gaeir y casgliad. Llawer o ddiolch eto, gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr iawn.

## Merched y Wawr - Cangen Melindwr

Ar gyfer ein cyfarfod mis Ebrill teithiom i Lanrhystud. Ein cyrchfan oedd Felin Ganol. Fe'n croesawyd yno'n gynnes gan Andrew ac Ann Parry a fu ar un adeg yn byw yng Nghapel Bangor.

Clywsom iddynt brynu'r felin yn 2006. Ers hynny buont yn brysur yn adnewyddu'r felin na fu'n malu ers tua hanner can mlynedd. Wedi gwaith caled mae'r felin bellach yn malu a gwelsom hynny'n digwydd. Mae'r dŵr o'r afon Wyre wedi ei sianelu i lanw llyn y felin a'r dŵr hynny a ddefnyddir i droi'r rhod ddŵr. Cawsom gyfle i grwydro o amgylch y felin ond yn anffodus nid oedd y tywydd yn ffafriol i ni dreulio llawer o amser yn yr awyr agored.

Bu'r felin ym mherchnogaeth y teulu Lewis am nifer o flynyddoedd. Roedd un aelod o'r teulu, Richard, neu Dic y Te yn gwerthu te yn yr ardal a Felin Ganol oedd canolbwynt ei fusnes. Roedd llawer iawn o'r offer a ddefnyddid yn y felin wedi eu gadael yno a braf oedd sylweddoli bod y rhain yn cael eu parchu, eu gwerthfawrogi a'u defnyddio gan y perchnogion presennol.

Paratowyd te a choffi ar ein cyfer yn ogystal â chacennau a wnaed o'r blawd a falwyd yn y felin. Diolchwyd i Andrew ac Ann Parry am eu croeso a dymunwyd yn dda iddynt yn eu menter gan Mrs Beti Daniel, ein llywydd. Cafwyd cyfle i brynu blawd a nwyddau eraill cyn diwedd y noson.

Ym mis Mai ymwelwyd â Theatr Arad Goch yn Aberystwyth. Fe'n croesawyd yn gynnes yno gan Mari Rhian Owen ac Elin Vaughan Crowley. Clywsom ychydig am hanes sefydlu Cwmni Theatr Arad Goch ym 1989 ac am y modd y mae'r cwmni'n gweithredu. Disgrifiwyd sut y llwyddwyd i gael cyllid i ariannu y gwaith sylweddol a wnaed i'r adeilad a hefyd sut yr aed ati i'w ehangu. Yna fe'n harweiniwyd o amgylch yr adeilad o lawr i lawr a chawsom gyfle i holi cwestiynau ac i edmygu'r gwaith a wnaed yn yr adeilad. Wrth ddringo fe'n denwyd dro ar ôl tro at y darn o gelf a gomisiynwyd ar gyfer yr adeilad. Ar ddiwedd y daith ddiddorol, braf oedd mwynhau te a choffi a sgwrs ymhlith ein gilydd. Diolchwyd i Mari ac Elin gan Beti Daniel, ein llywydd. Cyn mynd adref etholwyd swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf. Diolchodd Angharad Jones, yr is-lywydd i'r swyddogion presennol am eu gwaith yn ystod y flwyddyn.

## Sioe Capel Bangor

Gan fod y Sioe yn dathlu deugain oed eleni hoffai y Pwyllgor wneud arddangosfa o luniau yn y Babell. Os oes gan unrhyw un hen luniau o enillwyr y sioeau cynnar cysylltwch â Nerys Daniel neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.



# CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, 20 Ebrill yn Hen Ysgol Trefeurig gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn llywyddu ac wyth arall o'r cynghorwyr yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dai Rees Morgan a Tegwyn Lewis.

Nid oedd y Cyngor wedi derbyn ateb oddi wrth Adran Priffyrdd Cyngor Ceredigion ynglŷn â'r materion niferus a godwyd, ond roedd hi'n dda gweld fod y mannau gwaethaf ar y ffordd fawr rhwng yr Hen Ficerdy ac IBERS wedi cael eu tarmacio. Hefyd roedd y Comisiwn Coedwigaeth wedi torri'r canghennau hirion oedd ar y coed ger Cwrt Villa. Roedd problemau gyda cheir yn parcio ger y fynedfa i Maes Seilo o hyd, a phenderfynwyd cysylltu â'r heddlu unwaith eto am y mater.

Cafwyd adroddiadau gan Kari Walker ar gyfarfod o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru a fu yn Aberaeron ar 8 Ebrill, ac ar gyfarfod o Bwyllgor Cyswllt Airtricity a gynhaliwyd yn Nhal-y-bont ar 15 Ebrill. Adroddwyd fod SSE Renewables, y cwmni sydd am godi fferm wynt Nant-y-moch, wedi cael cyngor gan yr IPC, y Comisiwn sy'n ystyried ceisiadau cynllunio mawr, i ymgynghori ymhellach yn lleol cyn gwneud cais ar gyfer y cynllun. Roedd Mervyn Hughes wedi bod mewn cyfarfod o lywodraethwyr Ysgol Penrhyn-coch, ac roedd y broblem o yrru ceir yn gyflym yn agos at yr ysgol wedi'i thrafod eto, ac wedi ei dwyn at sylw'r heddlu. Hefyd penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn pa bryd y bwriedid gweithredu Rhan 2 o'r Llwybr Diogel i'r Ysgol. Roedd y ffordd fawr ger y Bwthyn yn ddi-balmant ac yn fan peryglus i gerddwyr.

Roedd y Cyngor wedi cael gwahoddiad i anfon sylwadau i'r IPC ynglŷn â pha wybodaeth y dylai'r cwmni oedd yn gwneud cais am fferm wynt Nant-y-moch ei gynnwys yn eu cais parthed yr amgylchedd. Cytunodd y Cadeirydd i lunio ateb. Roedd cyfarfod i'w gynnal yn Aberystwyth ar 13 Mai i drafod agweddau ar y Cynllun Datblygu Lleol, a chytunodd y Cadeirydd a Kari Walker i fynd iddo. Roedd Tai Ceredigion wedi rhoi gwybod fod y tir yn Nhan-y-berth yr holwyd amdano o ran cael mwy o le i barcio yn dal yn eiddo i Gyngor Ceredigion, felly byddai angen cysylltu â'r Cyngor Sir amdano. Roedd Cymdeithas Mynyddoedd Cambria wedi cynnig anfon siaradwr i drafod amcanion y Gymdeithas gyda'r Cyngor. Penderfynwyd derbyn y cynnig a gwahodd siaradwr i gyfarfod Mehefin. Cafwyd gwahoddiad hefyd gan Grŵp 60+ Trefeurig i fynychu digwyddiad yn Hen Ysgol Trefeurig ar 21 Mai pan fyddid yn dadorchuddio gwaith llaw oedd yn portreadu pen uchaf cymuned Trefeurig, a derbyniwyd y gwahoddiad.

Cyflwynwyd y cyfrifon ar gyfer 2009/10 gan y Clerc, a'u cadarnhau gan y Cyngor. Trafodwyd yswiriant y Cyngor ar gyfer 2010/11 a gwnaed ychydig newidiadau o'r flwyddyn flaenorol. Rhoddwyd gwybod am y penderfyniadau cynllunio canlynol: 4 Glanffrwd, Penrhyn, estyniadau — caniatawyd; Trysor, Cefn-llwyd, newid conservatory — caniatawyd; IBERS, Penrhyn, adeiladau newydd — caniatawyd; sied amaethyddol ger Gwelfor, Penrhyn — cyfarfod safle i'w gynnal 27 Ebrill a chytunodd Mervyn Hughes a Kari Walker i fynd iddo. Ceisiadau cynllunio: 104 Ger-y-llan, Penrhyn, estyniad — dim sylwadau; codi annedd ar dir ger Y Gelli, Penrhyn — roedd y Cyngor yn bryderus am agweddau o'r cais gan fod y ffordd ger y safle mor gul a phenderfynwyd gofyn am gyfarfod safle.

Eglurhad: yn yr adroddiad ar gyfarfod mis Ionawr dywedwyd fod yr Ysgol Feithrin 'yn gorfod symud o Neuadd y Penrhyn'. Mae'n bwysig nodi mai'r rheswm am symud yw fod gofynion cyfreithiol bellach yn golygu fod raid i'r Ysgol Feithrin gael man chwarae allanol a diogel, a dyna'r unig reswm dros symud o'r Neuadd. Ymddiheuriadau os bu unrhyw gamddeall.

Ceir y cofnodion llawn ar www.trefeurig.org .

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

### Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau a phen blwydd hapus yn ddeunaw oed i Aysha Doidge, Cae gynon.

### Llyfr y Flwyddyn

Mae llyfr diweddaraf Peter Lord *The Meaning of Pictures* wedi cyrraedd y rhestr o 10 teitl Saesneg ar gyfer y wobr Llyfr y Flwyddyn 2010. Llongyfarchiadau mawr ac edrychwn ymlaen yn eiddgar at ganlyniad y gystadleuaeth bwysig yma i awduron.

### Swydd newydd

Dymuniadau gorau i Alice Briggs, Tŷ Capel, Aber-ffrwd ar ei swydd newydd, sef Curadur Cynorthwyol yn Amgueddfa Ceredigion.
Mae Kieran Thompson, Felin fawr, hefyd newydd ddechrau ar ei dymor gyda'r Fyddin allan yn Afghanistan. 'Rydym yn meddwl amdano ac yn edrych ymlaen i'w weld yn ôl yn ddiogel.

### Urdd y Benywod

Aethom ar ein trip blynyddol eleni i lawr i Lambed i arddangosfa o gwiltiau Cymreig gan Jen Jones. Cawsom hanes sefydlu y siop yn Llambed ac mi 'roedd yn hyfryd gweld yr holl gwiltiau llachar. I orffen y noson mwynhawyd pryd o fwyd yn y Caffi drws nesaf lle y cynhaliwyd ein pwyllgor blynyddol. Diolchodd Carol Marshall i bawb am ei chefnogi a dymunodd yn dda i Norma Stephens, ein llywydd newydd.

# GOGINAN

### Ennill gwobr

Enillodd y ffilm Martha Jac a Sianco, gafodd chwe gwobr BAFTA Cymru y llynedd, Wobr Ysbryd yr ŵyl yn yr ŵyl Ffilm Geltaidd yn Newry, Gogledd Iwerddon. Hi oedd y rhaglen deledu orau mewn iaith Geltaidd yn yr ŵyl. Mae'r ffilm yn addasiad o nofel Caryl Lewis sy'n sôn am sut mae tri'n ymdopi wedi marwolaeth eu tad. Cwmni Apollo, sy'n rhan o Grŵp Boomerang, gynhyrchodd y ffilm a'r prif actorion oedd Sharon Morgan, Ifan Huw Dafydd a Geraint Lewis.

### Diolch

Hoffai John Clark, Nant-yr-arian ddiolch o galon am y cyfraniadau at 'Helpu ein Arwyr' dderbyniodd adeg ei barti ac hefyd cyfraniadau ychwanegol ers hynny. Codwyd £1600 ac fe fydd hyn yn dderbyniol iawn at helpu y milwyr sydd wedi eu hanafu - rhai yn ddifrifol iawn.

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

### Suliau Mehefin Madog

2.00 o'r gloch

| | |
|---|---|
| 6 | M.J. Morris |
| 13 | Ifan Mason Davies |
| 20 | Bugail |
| 27 | Richard H Lewis |

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Eirian ac Arthur Hughes, 31 Tregerddan ar golli chwaer Eirian, Alwen Griffiths Lluest Fach. Cofiwn am garedigrwydd Alwen yn yr ardal, ei ffyddlondeb i Capel Madog a'i chyfraniad i'r *Tincer.*

### Croeso

Croeso i Sian a Jonathan Lawson, Iestyn, Cerys a Harri i'w cartref newydd yn Annedd Lon, Capel Dewi.

### Pen blwydd

Llongyfarchiadau i Tristan Davies, Llaingwyddil, Cefn-llwyd sydd yn dathlu ei ben blwydd yn 18 oed ar y 4ydd o Fehefin.

# PENRHYN-COCH

### Suliau Mehefin

**Horeb**
**http://www.trefeurig.org/cymdeithasau-horeb.php**
6 2.30 Oedfa Gymun Gweinidog
13 10.30 Cwrdd teuluol Gweinidog
20 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog
27 10.30 Clwb Sul bach ac oedfa bregethu Gweinidog

**Salem**
6 2.00 - Cwrdd eglwys
20 10.00 Soar, Llanbadarn Fawr - Cyfarfod Undebol

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 9 a 23 Mehefin. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Genedigaeth


Llongyfarchiadau i Huw a Lowri Powell, 21 Maesyrefail, ar enedigaeth mab- James, ym mis Ebrill - brawd bach i Lydia a Iestyn.

### Urdd Gwragedd Sant Ioan Penrhyn-coch

Daeth blwyddyn arall i ben yn hanes Urdd y Gwragedd pan gynhaliwyd y cyfarfod blynyddol ym mis Ebrill, lle bu'r llywydd Edwina Davies yn sôn am yr holl westeion a'r siaradwyr fu'n ein plith dros y flwyddyn. Gorffennwyd y tymor gyda swper ysgafn. Penodwyd Edwina Davies fel llywydd, Mair Jenkins yn ysgrifennydd ac Elsie Morgan yn drysorydd. Edrychwn ymlaen yn awr at ein trip i'r Wybrnant ar Fai 15fed.

### Cyfrol arall o farddoniaeth

Nos Wener 7 Mai lansiwyd ail gasgliad o farddoniaeth Nigel Humphreys *The Flavour of Parallel* yng Nghanolfan y Celfyddydau.





### Pysgota

Daliwyd y brithyll yma oedd yn pwyso 5 pwys a 12 owns ar ddechrau'r tymor pysgota, gan Doug Rees Stevens, Y Ddôl Fach, ar lyn Blaenmelindwr, Penrhyn-coch.

### Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch

Cynhaliwyd gwasanaeth trwyddedu'r Parchg John Livingstone fel Deon Bro yn Neoniaeth Llanbadarn Fawr yn yr eglwys Nos Lun 19eg Ebrill. Roedd y gwasanaeth o hwyrol weddi yng ngofal y ficer. Y darllenwyr oedd Mrs Lona Jones a Mr Keith Jones. Mrs Marianne Powell oedd wrth yr organ a thraddodwyd yr anerchiad gan Archddiacon Ceredigion, yr Hybarch Will Strange.

'Roedd tyrfa luosog o leygwyr, clerigwyr a darllenwyr Lleyg y ddeoniaeth yn bresennol i dystio i'r trwyddedu. Darllenwyd Trwydded yr Esgob gan yr Archddiacon a chroesawyd y Parchg Livingstone i'w swydd gan glerc Mr Keith Jones. Yn dilyn y gwasanaeth cafodd pawb gyfle i longyfarch y deon newydd wrth fwynhau lluniaeth yn Neuadd yr eglwys.

Hoffai cynulleidfaoedd eglwysi Sant Pedr Elerch, St Ioan, Penrhyn-coch a Sant Dewi Capel Bangor ddatgan yn gyhoeddus eu llongyfarchiadau gwresog a'u cymorth bob amser i'r ficer yn ei swydd newydd.

### Gwellhad buan

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Gwyneira Evans, Yr Efail, yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

### Cylch Meithrin Trefeurig

Yr ydym wedi bod yn brysur iawn yn planu llysiau a blodau yn yr ardd a diolch i bawb sydd wedi bod yn ein helpu trwy roi eu hamser a chyfrannu planhigion. Diolch hefyd i Bwyllgor y Neuadd am adael i ni ddefnyddio'r tir.





Cawsom hwyl yn cystadlu yn Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch a llongyfarchiadau i Cerys, Daniel ac Osian ar eu llwyddiant yn y canu, ac i Daniel, Catryn a Cerys yn y llefaru a da iawn i bawb arall fu yn cystadlu.

Croeso mawr i Tomos, Annie May, Coby ac Eleanor sydd wedi ymuno â ni. Maent i weld yn hapus iawn yn y Cylch. Yr ydym wrthi yn paratoi at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ble byddwn yn canu ar y llwyfan fawr gyda Dewin a'i ffrindiau am 10.15 fore Llun 31 Mai.

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â theulu a chysylltiadau y ddiweddar Eirlys Reeves, gynt o Ysgubornewydd a Ger-y-llan.

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Gillian Dobson, Cae Mawr sydd adref ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Treforus.

### Merched y Wawr Penrhyn-coch

Nos Iau 15fed o Ebrill, croesawodd ein llywydd bawb i'r cyfarfod a fe ddymunodd wellhad buan i bawb fu yn sal yn ddiweddar a chydymdeimlodd â'r rhai a gollodd anwyliaid. Gyda hyn aed ymlaen i drafod yr ohebiaeth a ddaeth i law. Yna fe groesawodd ein gŵr gwadd, sef Michael Davies sydd yn gweithio dros Brosiect Dyslecsia Cymru. Cafwyd ganddo holl hanes y gwaith mae ef yn bersonol yn ei wneud a beth yn hollol yw dyslecsia, a sut yn aml iawn nad yw pobl yn sylweddoli fod rhywun yn ddyslecsig, am eu bod yn gallu ymdopi'n wyrthiol gyda'r peth, ac yn glyfar iawn ymhob peth y maent yn eu gwneud. Roedd gan rhai aelodau gwestiynau i ofyn am eu bod yn adnabod rhai oedd yn ddyslecsig. Yr oedd yn agoriad llygad i bawb ohonom a dysgwyd i ni sut i ddod i ddeall person ddyslecsig, ac i adnabod y symptomau. Noson arbennig. Diolchwyd i Mr Davies gan Glenys Morgan ac yna cafwyd cwpanaid a thynnu y raffl cyn mynd tua thre.

Aeth rhai aelodau i'r Ffair Fai ar yr 8fed o Fai i Lanfarian. Roedd rhai wedi cystadlu yno a diolch iddynt oll. Llongyfarchiadau i Glenys Morgan am cael cyntaf yn Adran Gosod Blodau mewn Cragen. Bydd yn mynd ymlaen fel rhan o grŵp i gystadlu yn Sioe Llanelwedd. Hefyd fe gafodd drydydd am Glawr Llyfr Lloffion.

### Murlun

Dyma un o chwe murlun a baratowyd,wedi eu paentio o waith aelodau rhai o ganghennau Merched y Wawr yng Ngheredigion wedi eu seilio ar awdl Y Cynhaeaf (Dic Jones). Yma gwelir un a baratowyd gan Elisabeth Wyn a Mair Evans o Gangen Penrhyn-coch ar 'Diolchgarwch'. Bydd y set gyfan yn cael eu harddangos ym Mhabell Merched y Wawr yn y Sioe Frenhinol.Tynnwyd y llun yma gan Tegwen Morris.



### Rhedwraig marathon

Llongyfarchiadau i Yvonne Thomas, Nant Seilo, ar gwblhau Marathon Llundain ddiwedd Ebrill mewn chwe awr a hanner gan godi £1,500 i'r elusen Distroffi'r Cyhyrau. Llun: Hugh Jones

# EISTEDDFOD GADEIRIOL PENRHYN-COCH 2010

Cafwyd Eisteddfod llwyddiannus unwaith eto a'r safon yn uchel iawn ac, yn ôl y Beirniaid, o safon cenedlaethol. Er mai gwan oedd y gynulleidfa a'r cystadlu ar bnawn Sadwrn, cafwyd gan y rhai fu yn cystadlu safon uchel iawn. Mae'n drueni na fyddai mwy o gynulleidfa a phobl leol yn dod i gefnogi. Er hynny mae'r pwyllgor yn hapus gyda'r Eisteddfod ar y cyfan, mae'n ddal ei thir yn dda iawn.

Dyma'r enillwyr lleol:
Nos Wener: Ceris Hurford. Daniel P. Brown. Carys James. Trystan Thomson. Olivia Blezhovsky, Nia Jones. Sioned Exley. Sion Wyn. Rhys Hedd. Gwenno Morris. Ysgol Penrhyn Marc 2. Ysgol Penrhyn (Ll). Becky Hicks. Sion Jones. Mared Pugh Evans. Enillwyd Tlws yr Ifanc gan Megan Lewis, Llanfihangel-y-Creuddyn. Diolch i Emyr Pugh Evans, Prifathro Ysgol Penrhyn-coch a'r plant am ymgymryd â Seremoni Tlws yr Ifanc.
Beirniaid nos Wener: Cerdd — Steffan Prys Roberts, Aberystwyth. Llefaru — Heledd Hughes, Castellnewydd Emlyn. Llywydd y noson oedd Karen Hughes Roberts, Aberystwyth.

Dydd Sadwrn: Rhys Hedd. Rhodri Evans. Rhian Dobson. Deuawd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru — Rhodri Evans a Rhys Hedd. Ensemble Lleisiol — Parti'r Penrhyn. Parti Llefaru — Parti Mair. Côr — Côr y Penrhyn dan arweiniad Emyr Pugh-Evans. Cadair — Anwen Pierce. Y gadair hardd esmwyth yn rhoddedig gan Dai Rees, Elizabeth a Glanville Morgan a'r rhodd gan Rhian ac Alwyn er cof am eu mam sef Letitia Morgan, Llansiriol a fu yn ffyddlon iawn i'r Eisteddfod ar hyd y blynyddoedd.

Beirniaid Sadwrn oedd: Cerdd — Rob Nichols, Caerdydd. Llefaru — Tudur Dylan, Caerfyrddin. Llenyddiaith, Barddoniaeth — Tudur Dylan a Dafydd Morgan Lewis, Aberystwyth ar y Rhyddiaith a Thlws yr Ifanc. Cyfeilydd — Lowri Evans, Caerdydd.

Arweinyddion yr Eisteddfod: Emyr Pugh Evans, Y Borth. Aled Llyr, Capel Dewi, Cemlyn Davies, Penrhyn-coch. Rhys Hedd, Y Borth. Rhian Dobson, Penrhyn-coch.

Y Llywyddion ar y Sadwrn oedd: Pnawn — Gwyddno Dafydd, Caerdydd; Hwyr — Dai Mason, Cwmisaf.

Yn ystod cyfarfod yr hwyr nos Sadwrn, cyflwynodd Eirwen Hughes (Cadeirydd) oriawr i Dai Rees Morgan i ddiolch a chydnabod ei waith fel arweinydd yr Eisteddfod am flynyddoedd lawer. Ategwyd y diolch gan Mairwen Jones trwy iddi adrodd darn oedd wedi gyfansoddi ar ymddeoliad Dai fel arweinydd. Mae'r Pwyllgor am ddiolch i bawb a gyfrannodd yn helaeth tuag at ein heisteddfod fel arfer, ac i bawb a weithiodd yn ddiflino y Gwener a'r Sadwrn yr Eisteddfod a diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi yn gystadleuwyr ac yn gynulleidfa.



Mi glywaf dyner lais, cystadleuwyr y canu emyn dros 60 yn cyd-ganu: Gwyn Jones, Hywel Annwyl, Aled Jones, Vernon Maher, Meirion Williams.
Llun: Hugh Jones

## Cystadleuaeth Y Soned

### Y Llyfrgell Genedlaethol

Wele'n eistedd ar ysgwydd rhiw Penglais
Gyfaill pennaf, medd rhai, cenedl y Cymry.
Tu fewn i wynder cadarn ei fortais
Ceir stôr o gyfoeth glân mewn trysordy.
Yno, cawn gwrdd â chyfeillion gwerthfawr:
Darlun, llawysgrif, ffilm, cerdd a chyfrol.
Yn eu plith ceir rhyfeddodau dirfawr
A'r cyfan yn creu rhuddin grymusol.
Diolchwn am warchodwyr destlus
Sy'n diogelu hynt ein cynefin;
Rhain sy'n anwylo ein doe yn daclus
I'r 'sgolor yn ogystal â'r werin.
Ac yno'n disgwyl wrth y drws yn glên
Borthorion hynaws iawn yn gwisgo gwên.

**Martha (Y Parchg Judith Morris)**



Buddugwyr nos Wener Canu Blwyddyn 5 a 6 1af Becky Hicks; 2il Hannah Holmes; 3ydd: Robert Harrison
Llun: Arvid Parry-Jones

## Cystadleuaeth Cadair Eisteddfod Penrhyn-coch 2010

### Gofal

(Wrth weld bachgen dwy flwydd oed yn cael ei achub o olion daeargryn Haiti. Mae gennyf i ferch yr un oed).

Daw'r nos â llun o dir neb
a chwyn am ryw drychineb.
Hanner gwyliais o'r gwely
hanesyn daeargryn du,
hen dro gwael ar ryw dir gwast,
a lluniau gwlad mewn llanast.

Heibio yr af i'r rwbel
lle mae plantos nos yn hel
i lefain; af o glefyd
a chwyn crwt, at erchwyn crud
heb wrando, wrth faldodi
'r eco'r boen o'r Caribî.

Yn y cwtsh mae fy nacâd,
a'i wadu wna 'nghofleidiad,
'chwtsho a'i hanwylo hi
heb ateb mab Haîti,
a mynd o'r daeargryn du
yn ôl i gôl y gwely.

Daw'r nos â llun o dir neb;
Ildiaf i'm hunanoldeb.

**Anwen Mai Pierce**



Yvonne Thomas



Archddiacon Ceredigion, Dr W. Strange (chwith) gyda'r Parchg John Livingstone , rheithor plwyf Penrhyn-coch gydag Elerch a Chapel Bangor a benodwyd yn Ddeon Bro dros Ddeoniaeth Llanbadarn Fawr yn ddiweddar. Llun: Hugh Jones


# CLWB CŴL

## Penrhyn-coch

Ar Agor Llun - Gwener
3.30 - 5.30
£5 y sesiwn . £4 ail blentyn

Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig

I fwcio cysylltwch â
Nicola Meredith 07972 315392
Neu cipiwch i mewn i'r clwb ar ôl Ysgol

Celf a Chreft, Gemau tu mewn ag allan, Wii a Playstation, Pwll Pelau a mwy!

# BOW STREET

### Suliau Mehefin

**Capel y Garn**
**http:www.capelygarn.org**
10 a 5
6 M.J. Morris
13 Ifan Mason Davies (Yn Noddfa yn y bore)
20 Bugail
27 Richard H Lewis

**Noddfa**
6 5.00 Gweinidog.
13 10.00 Parch. Ifan Mason Davies.Cymundeb. Y Garn yn cydddoli
20 10.00 Undebol yn Soar
27 5.00 Parch. Terry Edwards.

### Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau mawr i Mair a Ron Davies, Irlwyn, Y Lôn Groes, ar ddathlu eu pen blwydd priodas ruddem ar Fai 16. Daw'r dymuniadau gyda chariad mawr oddi wrth Paul, Mark, Jayne, Sion, Tomos a'r teulu oll.

### Cartref Tregerddan

BBQ yn y Cartref
nos Wener 18.6.10
am 6.30 o'r gloch

Croeso cynnes i bawb.

### Merched Y Wawr, Rhydypennau

Y gŵr gwadd yng nghyfarfod nos Lun, Ebrill 12fed oedd y trefnwr blodau Donald Morgan. Tra bu'n trefnu pedwar gosodiad hyfryd bu'n dweud ychydig o'i hanes yn arddangos, hyfforddi a beirniadu. Soniodd hefyd am ei ddiddordeb yn y byd canu, llefaru a cherdd dant. Mae'n siwr ei fod yn haeddu gradd BA (byth adre!). Anogwyd ni i roi tro ar drefnu blodau. Rhaid cyfaddef fod Donald yn gwneud i bopeth edrych mor hawdd. Bu pedair aelod yn lwcus iawn yn ennill gosodiad sef, Rhiannon/Bethan, Ann, Beryl a Mair Davies. Mwynhawyd paned a bisgien wedi ei drefnu gan Delsey a Mair Lewis.

Ar noson braf, Ebrill 26 bu nifer o'r aelodau ar "helfa drysor ar droed" wedi ei threfnu'n fanwl iawn gan Rees a Mary Thomas. Cafwyd 22 o gliwiau aeth a ni o Siop y Pethe lawr Coedlan y Parc, dros yr afon, ar hyd y lanfa, draw i lan y môr ac yn ôl i gyfeiriad Siop y Pethe. Yna, aeth pawb yn ôl i dafarn Rhydypennau i glywed yr atebion cywir ac i longyfarch Rhian a Bethan ar eu llwyddiant. Edrychwn ymlaen i weld y ddwy yn hawlio eu gwobr. Diolch i Rees a Mary am drefnu noson mor hwyliog ac am y wobr arbennig.

### Diolch

Dymuna ffrindiau Cymanfa Aberaeron ddiolch yn gynnes iawn i Mrs Dilys Baker-Jones, Gaerwen, am lywyddu ein cymanfa mor fedrus. Diolch o galon iddi am ei rhodd hael, ac am anerchiad grymus llawn o wirioneddau, wedi ei draddodi gydag arddeliad y Cristion. Braint oedd ei chael yn ôl gyda'i gwreiddiau, ac mae ei lle yn wag yn y cylch. Diolch Dilys am dy faith gefnogaeth.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau mawr i Eiry a Daniel, 1 Maes Afallen, ar enedigaeth Megan Daniel ar 16eg o Ebrill, wyres i Theresa a Vivian Davies, Bow Street. Dymuniadau gorau i'r teulu i gyd.

### Rhedeg Marathon

Llongyfarchiadau mawr i Dilwyn Phillips, Llanilar, gynt o Tregerddan, Bow Street, a'i wraig Hazel ar gwblhau marathon Llundain, a chodi arian at elusen cŵn cymorth ar gyfer pobl trwm eu clyw. Daw'r dymuniadau oddi wrth Maud a'r teulu i gyd.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Julie Hancox, Capel Bangor, Colin Evans a theulu y diweddar Harold Evans, Saronfa, yn dilyn ei farwolaeth ar 7 o Fai yng Nghartref Hafan y Waun. Bu'r angladd yng Nghapel y Garn ar Fai 15.

SSE Renewables

Rydych chi'n bwysig iawn i ni

Mae'n bwysig i ni eich bod chi'n ymwybodol o'n cynlluniau trwy gydol y broses cynllunio.


Sefydlwyd Grŵp Cyswllt Cymunedol (GCC) dros flwyddyn yn ôl fel bod cynrychiolwyr o'ch plwyf yn medru delio'n uniongyrchol â ni mewn cyfarfodydd fel rhan o'n hymgynghoriaeth leol ar gynlluniau'r fferm wynt. Mae pob cyfarfod yn cael ei redeg gan gadeirydd di-duedd ac mae pob sylw'n derbyn gwrandawiad teg.

Os oes gennych chi unrhyw sylw neu bryder, mi allwch gysylltu'n uniongyrchol â ni neu gysylltu â'r GCC – sy'n bodoli er mwyn i ni gael gwybod am unrhyw bryderon sy'n codi, ac hefyd er mwyn lleihau neu waredu unrhyw broblemau a all godi yn sgil hynny.

Os hoffech mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n swyddog cyswllt cymunedol ar 01654 702720, neu ebostiwch **eluned.lewis@sserenewables.com**

Mi fydd mwy o wybodaeth ar gael ar ein safle we:
**www.ffermwyntnantymoch.com**

Swyddfa Gofrestrefig SSE Renewables Developments (UK) Cyf yw: 2il Lawr, 83-85 Great Victoria Street, Belfast, BT2 7AF Northern Ireland
Cofrestrwyd yng Ngogledd yr Iwerddon Rhif NI043294



SSE Renewables – yn cefnogi Eisteddfod yr Urdd, Ceredigion 2010, a Sioe'r Cardis - Sioe Frenhinol Cymru 2010.






Cacen pen blwydd Dathlu 40 Merched y Wawr Rhydypennau, a oedd wedi ei pharatoi gan Brenda a Mair L, yn cael ei thorri gan ddwy o lywyddion cynnar y gangen sef Gwenda James a Carwen Fychan ac Esyllt Jones, Llywydd mudiad Merched y Wawr eleni.

## CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Cyfarfu'r Cyngor uchod ar nos Iau 29 Ebrill o dan gadeiryddiaeth y Cyng. Heulwen Morgan. Daeth llythyr oddi wrth Bwyllgor Apêl Eisteddfod yr Urdd yn gofyn i'r Cyngor ail ystyried eu penderfyniad i beidio a phrynu fflagiau i'w gosod yn Bow Street i groesawu Eisteddfod yr Urdd. Wedi peth trafod penderfynwyd glynu at y penderfyniad gwreiddiol gan fod y Cyngor wedi cyfrannu yn hael at yr Apêl ond i gyfrannu £60 sef pris un set o fflagiau a bod yr Urdd yn gyfrifol am eu gosod.

Derbyniwyd llythyron oddi wrth Prifathro Coleg Prifysgol Cymru (IBERS) ac oddi wrth rheolwyr Tafarn Rhydypennau yn dweud eu bod yn ystyried y materion a godwyd gan y Cyngor yn y cyfarfod diwethaf.

Nid oedd y Cyng. Sir yn bresennol ond anfonodd y Cyng. Paul Hinge rhai sylwadau ymlaen. Mae syrfewyr y sir yn gwneud arolwg ar hyn o bryd ar y mater o uwchraddio rhan o ystad Maesafallen. Gofynnodd i'r Cyngor Cymuned i gefnogi ei gais am fwy o bresenoldeb yr heddlu o gwmpas y pentre gan fod cwynion am grwpiau o ieuenctid yn creu trafferthion yng ngwaelod Bow Street ar hyn o bryd. Adroddodd bod yr heddlu yn gwneud gwaith da yn rheoli cyflymder cerbydau ar y ffordd fawr. Ar nodyn gobeithiol adroddodd fod posibilrwydd mawr y bydd Rheilffordd y Cambrian yn ystyried agor gorsaf yn Bow Street yn y dyfodol.

Aeth y ceisiadau cynllunio a fu gerbron y Cyngor fis diwethaf trwyddo gyda rhai amodau perthnasol gan y pwyllgor cynllunio. 1. Caniatau i'r tymor gwyliau redeg o 1 Mawrth hyd 10 Ionawr yn y flwyddyn wedyn yn Green Meadow Holiday Home Park, Clarach a 2. Cais am godi estyniad un llawr i dri bwthyn gwyliau yn Bryncarnedd, Ffordd Clarach.

Ceisiadau newydd. Ni ddangoswyd unrhyw wrthwynebiad i godi ystafell haul yn 36 Maes Ceiro, Bow Street.

Ymysg y gohebiaethau arferol roedd llythyr yn gofyn am sylwadau ar gynllun datblygu ynni gwynt arfaethedig yng nghyffiniau Tal-y-bont, Bont-goch a Nant-y-moch. Penderfynwyd peidio a gwneud dim sylwadau ar hyn o bryd gan na fydd y fferm wynt yng ngolwg Tirymynach. (Tebyg eu bod yn defnyddio hen fapiau o ddechrau'r ganrif ddiwethaf pan oedd Tirymynach yn estyn ei derfynnau i'r ardaloedd yma!)

Yn ariannol — telir yr yswiriant blynyddol sef £571 eleni i gwmni AON.

Gwnaed sylw bod tipyn o wlybaniaeth o gwmpas y mynediad i gae chwarae Tregerddan. Ofnwyd bod y loriau unwaith eto wedi torri y pibau wrth newid y cyfarpar digidol ar y mast ym mhen ucha'r cae. Gwneir arolwg o'r difrod ar fyrder.

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 27 Mai pryd y cynhelir y Cyfarfod Blynyddol a gwahoddir trethdalwyr yr ardal i fod yn bresennol. Y cyfarfod i gychwyn am 7.30.


SSE Renewables

Bydd Arddangosfeydd Cyhoeddus ar ddatblygiad
**Fferm Wynt Nant y Moch**
yn cael eu cynnal ar


Dydd Mercher 16 Mehefin 2010 – 3yh – 8yh:
**Neuadd Penrhyn-coch**

Dydd Iau 17 Mehefin 2010 – 3yh – 8yh:
**Y Plas, Machynlleth**

Dydd Gwener 18 Mehefin 2010 – 3yh – 8yh:
**Neuadd Goffa Tal-y-Bont**

Dydd Sadwrn 19 Mehefin 2010 – 10yb – 2yh:
**Neuadd Capel Bangor**

Croeso cynnes i bawb. Cyfle i wybod mwy am y cynllun.


ytincer@googlemail.com


Gwasanaeth Cynnal M.H.

Gwasanaeth Torri Porfa a Garddio, Peintio, Teilo, D.I.Y. a manion waith eraill o amgylch y tŷ

Disgownt i bensiynwyr

Ffoniwch ni yn gyntaf ar 01970 881090 / 07792457816

AberTechnoFix
Cymorth cyfrifiadurol lleoledig yn Aberystwyth

Cyfrifiadur HELP?

Ymweliad cartref

Ffoniwch 07536 022 067

# COLOFN MRS JONES

A dyna'r etholiad drosodd — am ryw hyd, o leiaf, oherwydd perygl pethau ydi y bydd yn rhaid i ni gael un arall, a hynny'n fuan. Ond mae'r ffaith fod un parti yn medru cael y nifer fwyaf o bleidleisiau heb ennill grym yn dangos fod rhywbeth o'i le ar y drefn etholiadol a bod angen ei newid. Rwan, mae newid y drefn etholiadol yn un o gonglfeini'r Rhyddfrydwyr sydd yn argymell cynrychiolaeth yn ôl maint pleidlais. Golygai hyn, os wyf wedi deall yn iawn, y gellid ethol i sedd bob ymgeisydd sydd wedi ennill mwy na chanran arbennig o'r bleidlais. Inni, yma yng Ngheredigion, fe olygai fod gennym ddau aelod seneddol, Pleidiwr a Rhyddfrydwr, ond y syniad yw y byddai gan bob etholaeth aelodau seneddol oedd yn cynrychioli barn ystod eang o'r etholaeth ac nid dim ond y blaid oedd wedi denu fwyaf o bleidleisiau.

Ar bapur y mae hyn yn gwbl deg. Ond fe fyddai'n system ddrud iawn i'w rhedeg ac yn golygu dyblygu os nad treblu costau'r senedd. Gwnewch y syms, dau aelod yma am mai dwy 'brif' blaid sydd yn yr etholaeth ond lle y mae etholaeth yn fwy agored a'r holl bleidiau yn nes at ei gilydd, gallai olygu tri os nad pedwar aelod. Hunllef mi dybiaf a ffordd o arafu llywodraeth oherwydd byddai, efallai, bob amser ddigon o wrth — lywodraeth i drechu'r prif barti oedd mewn grym ond gwrth lywodraeth na fedrai gynnig polisi ei hun oherwydd nid un gwrth lywodraeth yw ond clymblaid a hanfod honno yw bod a gwahanol bleidiau yn cynnig polisiau. Gallasem weld sefyllfa yn codi pan na allai'r llywodraeth basio deddf ond na allai'r gwrthbleidiau ychwaith gytuno ar pa un o' u polisiau hwy i'w droi'n ddeddf a phryd y curid hwy yn eu tro. o'r herwydd, gan y blaid mwyaf niferus.

Mae'r sustem bresennol o blaid mewn grym a gwrthblaid yn gweithio a, hyd yn oed mewn senedd grog, fe all ddal i weithio trwy i'r partion eraill gydweithio â'r llywodraeth pan yw honno yn gyfiawn a phleidleisio yn ei herbyn pan mae angen. A daeth un peth yn gwbl amlwg yn ystod y dyddiau diwethaf sef wanc y prif bleidiau am rym. Rhaid gwneud un peth yn eglur, er gwaethaf yr holl ddwndwr yn y papurau yn ei erbyn, nid cau gadael rhif 10 wnaeth Brown, ei waith ef oedd dal ati yn Brif Weinidog hyd oni ffurfir llywodraeth a rhagfarn a mympwy oedd dweud fel arall.

Gwneud ei ddyletswydd y mae'r dyn ond ni ellir dweud hynny am fawr neb arall. Llafur yn ceisio ffurfio llywodraeth gan neidio i'r gwely efo unrhyw un sydd yn chwincio arnynt; y Ceidwadwyr yn slefrian gydag archwaeth o weld y cyfle — ond, a bod yn deg, hwy yw'r parti mwyaf. Cyn belled, y mae pawb yn bihafio fel arfer yn ymosod ar ei gilydd ac yn ceisio eu gorau glas ddwyn agoriadau'r senedd y naill oddi ar y llall. Ond mae'r cwbl yn siom i mi yn bersonol ar ddwy lefel. Ar un lefel, mae'n siom oherwydd prif uchelgais y partion yw gwneud dêl a ffurfio llywodraeth cyn i'r farchnad stoc gael ei heffeithio. Fe allai weld sens hyn, rywsut, oherwydd byddai cwymp ar hon yn ein harwain yn ôl i gyni ond, y drwg ydi, nid oes neb wedi fy mherswadio i mai am ein pocedi ni mae nhw yn poeni, poeni am eu pocedi eu hunain y maent!

Ond daeth y siom fwyaf un i mi o gyfeiriad y Rhyddfrydwyr. Nid Rhyddfrydwr mohonof ond fe'm maged i â pharch atynt a byddwn wedi bod yn berffaith hapus i bleidleisio iddynt petawn i yn byw yn Lloegr. Maent wedi treulio blynyddoedd yn yr anialwch gwleidyddol yn dweud sut yr ymladdent am newid i'r drefn etholiadol a sut y buasent bob amser yn cydweithio â'r parti fyddai fwyaf llesol i Brydain gan benderfynu yn ôl rhinweddau. Ond gwae ni, y munud yr aeth hi'n senedd grog ac iddynt gael cyfle i gyflenwi ei haddewidion, nid ydynt ddim gwell na'r partion eraill. Fe fuaswn wedi disgwyl i'r parti siarad gyda'r Toriaid a chyda Llafur, dyna fyddai'r peth naturiol i'w wneud, gweld pa barti oedd yn cynnig fwyaf a rhoi'r gefnogaeth yn ôl yr hyn a gynigir iddynt. Ond fe fuaswn wedi disgwyl iddynt wneud hynny yn agored a gonest.

Beth wnaeth arweinyddiaeth y Rhyddfrydwyr? Datgan mai Cameron oedd wedi ennill ac mai gydag ef y trafodent - a wedyn mynd ati i gynnal trafodaethau dirgel â'r blaid Lafur. Mae'n gwbl amlwg nad oes raid i'r hyn a gynigir iddynt am eu cefnogaeth gynnwys ad-drefnu etholiadol er i hynny fod yn un o'r polisïau anwylaf ganddynt a'r polisi y siaradent fwyaf amdano tra yn yr anialwch. Hyd y gwelaf, eu pennaf pryder yw pwy ohonynt a baint ohonynt a gaiff sedd yn y Cabinet.

Maent wedi gwneud yn fawr o'u pwysigrwydd mewn cynnal a chadw senedd grog wrth ei gilydd. Ond trwy redeg yn agored gyda un parti ac yn ddirgel gyda un arall, maent wedi dangos na ellir ymddiried ynddynt ac na fedr na'r llywodraeth y maent yn rhan ohoni na'r etholaeth ymddiried ynddynt. Ac y mae hynny yn ofid i mi ac yn frad ar aelodau seneddol gweithgar, gonest, ac egwyddorol eu parti, pobl a ddaeth a gofyn am bleidleisiau a phobl sydd wedi cael eu siomi a'u disytyru gan eu harweinwyr hwy eu hunain.

# COLOFNYDD Y MIS

## Lleucu Roberts




Diolch yn fawr am y gwahoddiad i ysgrifennu colofn. Pan ges e-bost yn gofyn i mi wneud, yr ymateb cyntaf wrth reswm oedd 'am beth?' Fu erioed gen i farn am fawr o ddim erioed, pam gofyn i fi?

A ches ateb yn ôl yn syth yn awgrymu y gallwn, ar gyfer rhifyn mis Mai, sôn am y profiad, gwta wyth mlynedd ar hugain yn ôl, o ennill cadair Steddfod yr Urdd.

Diolch am hynna, meddyliais, a dechrau chwysu eto wrth ail-fyw'r wythnosau o artaith cyn yr Eisteddfod ym Mhwllheli, yn ceisio meddwl am ffyrdd o osgoi codi ar fy nhraed o flaen llond pafiliwn o lygaid, a cherdded at lwyfan digon mawr i ychwanegu agoraffobia at y nerfusrwydd llethol oedd yn fy mwyta'n fyw.

Yn fy stafell wely, i gyfeiliant y Stranglers a Geraint Jarman, ceisiais feddwl am ffordd o ddod mas o fynd i Bwllheli. (Neu, o fethu â gwneud hynny, ffordd o roi stop ar y 'Steddfod).

Yn gyntaf, ceisiais fagu gyts i esgus bach 'mod i'n sâl ond galwai hynny am ddawn actio y tu hwnt i 'ngallu. Syniad arall oedd ffoi. Gallwn sleifio ar y Pâb-fobîl a chael fy smyglo allan o'r wlad dan hem ffrog John Paul a fyddai'n ymweld â Chaerdydd rai dyddiau cyn y Steddfod. Neu fodio lifft ar un o'r llongau cario awyrennau i'r Malfinas, lle roedd Thatcher yn cael twtsh o dantrym ar ôl i ryw hen gythrel bach gipio rhywbeth nad oedd hi hyd yn oed yn cofio'i fod e 'da hi tan ar ôl iddo fe gael ei ddwgyd.

Daeth yr ateb fel fflach wrth glywed stori newyddion am dŷ haf arall yn wenfflam dan law Meibion Glyndŵr - bom o dan y pafiliwn! Dim pafiliwn, dim cadeirio - dim problem! Nawrte, 'doedd fy sgiliau gwneud bomiau ddim yn wych yn y dyddiau hynny, ond tybiwn y gwnâi matsien y tro. Gallai ddigwydd yn y nos fel na fyddai neb yn cael dolur - jawch, o'n i'n aelod o CND wedi'r cyfan. A fyddai hi ddim y tro cyntaf i rywun gynnau tân ym Mhenyberth...

Fel digwyddodd hi, wnes i ddim dal clefyd y llengfilwyr, welais i 'mo ddillad isaf y pontiff, a ches fy arbed rhag trip i'r Malfinas lle roedd bechgyn dwy wlad yn gwaedu i farwolaeth yn enw diawl o ddim byd. Ac ni fu ail dân ym Mhenyberth.

Y gwir amdani oedd 'mod i'n ormod o gachgi i gachu mas o fynd i Bwllheli.

A'r holl ryfeloedd wedyn dan law arweinwyr sy'n llofruddion yn enw crefydd a phŵer ledled y byd, mae cadair Pwllheli'n fy wynebu wrth i mi godi bob bore, ei hestyll ddim cweit yn ddigon cyfan bellach i fi osod fy nghorpws tinfawr arni.

Glania fy llygaid arni a chlywaf alwad y corn gwlad eto'n merwino fy nghlust, gan ailgynnau nyrfs Pwllheli.

(Pam ddiawl nest ti drio 'te? clywaf leisiau'n holi, a does gen i ddim ateb.)

Wela i chi yn Llanerchaeron dros wydraid bach o win.

**Y mis nesaf:** John Hayes

# YSGOL CRAIG YR WYLFA

Cafwyd diwrnod hwylus gyda PC Gwyndaf Lloyd ar ddechrau tymor yr haf. Cafodd pob dosbarth wers gyda neges bwysig. Roedd ganddo weithgareddau diddorol ac roedd y disgyblion wedi elwa'n fawr o'r gwersi. Edrychwn ymlaen yn fawr at ei ymweliad nesaf.

Daeth Tony Cope o 'Power Wize' i'r ysgol i gynnal cyflwyniad er mwyn gwneud disgyblion yn ymwybodol o beryglon trydan. Cafwyd cyflwyniad arbennig gan Tony Cope ac roedd y plant wedi mwynhau yn fawr.

Bu cyffro mawr yn yr ysgol wrth i'r disgyblion weld deg gluniadur newydd yn cyrraedd ar ôl gwyliau'r Pasg. Cafodd y gluniaduron eu prynu gan arian o gronfa Peter Glover. Mae'r gluniaduron yn cael eu defnyddio bron pob dydd ac yn adnodd ardderchog i'r ysgol. Hoffwn groesawu aelod newydd i'r ysgol, sef Jordan Howland, i flwyddyn pedwar. Mae wedi setlo'n dda yn barod ac wedi gwneud llawer o ffrindiau yn yr ysgol.



PC Gwyndaf Lloyd gyda phlant blwyddyn 5 & 6



Tony Cope o Scottish Power



Plant yn gweithio gyda gliniaduron newydd o Gronfa Peter Glover

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Blodau i bob achlysur
Blodau'r Bedol
Priodasau . Pen blwydd . Genedigaeth . Angladdau . Blodau i Eglwysi a Chapeli neu unrhyw achlysur
Donald Morgan
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5:30 p.m. nosweithiau Iau a Gwener am brydiau teuluol

CIGYDD BOW STREET
Eich cigydd lleol
Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
• Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

TACSI EDDIE
7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi (fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

ytincer@googlemail.com

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

GWYNFOR DAVIES ADEILADYDD
Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# YSGOL PENRHYN-COCH

### Eisteddfod Penrhyn-coch

Gwelwyd disgyblion yr ysgol wrthi yn cymryd rhan yn Eisteddfod Penrhyn-coch ar y nos Wener. Daeth criw da o ddisgyblion yr ysgol ati i gymryd rhan. Llongyfarchiadau i bawb am eu gwaith arbennig a diolch i flwyddyn 5 a'r rhai o flwyddyn 6 a oedd yn bresennol am fodloni i gymryd rhan yn seremoni Tlws yr Ifanc. Diolch i'r rhieni a ddaeth a'u plant i gefnogi'r Eisteddfod.

### Heddlu

Braf oedd croesawu PC Gwyndaf Lloyd i'r ysgol yn ddiweddar. Treuliodd ddiwrnod yma yn sgwrsio gyda holl ddisgyblion yr ysgol. Yn ystod y cyfnod y bu yma, bu'n sgwrsio gyda'r disgyblion am "Da a Drwg," "Cymdeithas Cornel Stryd / Parc ynghyd ag ymddygiad gwrth gymdeithasol" ynghyd â "Perygl o Ddieithriaid." Cafwyd cyfle i wylio DVD, chwarae gêmau ynghyd â thrafod a sgwrsio'n agored gyda'r Heddlu. Diolch i PC Lloyd am ei barodrwydd i ddod atom.

### Bws Cyw

Bore dydd Iau y 29ain o Ebrill, cyrhaeddodd bws Cyw iard yr ysgol. Yn ystod y dydd, gwelwyd Sali Mali a Tigi yn cynnal gweithgareddau gyda'r disgyblion ac yn arwyddo'u llofnodion. Cafodd dosbarth Miss Cory a Dosbarth Miss Owens eu ffilmio ar y byrddau picnic. Trueni am y glaw!! Braf oedd gweld yr holl ddisgyblion ar y teledu ym mis Mai.

### Eisteddfod Celf a Chrefft

Llongyfarchiadau mawr i ddwy o ddisgyblion yr ysgol. Yn ddiweddar, beirniadwyd gwaith celf a Chrefft yr Urdd yn Genedlaethol. Llwyddodd Seren Jenkins i ennill y wobr gyntaf yng Nghystadleuaeth Dylunio a Thechnoleg Bl. 3 a 4. Yng ngystadleuaeth Gwehyddu Bl. 2 ac iau, llwyddodd Charlotte Ralphs i ennill yr ail wobr. Bydd eu gwaith yn awr yn cael eu harddangos ym mhabell Clef a Chrefft yr Urdd yn yr Eisteddfod yn Llanerchaeron yn ystod gwyliau'r Sulgwyn.

### Cyngor Ysgol

Yn unol a'u rhieni, cafodd ddisgyblion yr ysgol gyfle i bleidleisio mewn etholiad pwysig ar Fai 6ed. Cynhaliwyd Etholiadau ar gyfer Y Cyngor Ysgol. Cafwyd nifer dda iawn yn ymgeisio ar gyfer 8 sedd. Ar ddiwedd y cyflwyniadau unigol a'r pleidleisio, etholwyd y canlynol i'r Cyngor:- Becky Hicks, Owain Wilson, Zoe Evans, Taylor Richards, Llion Edwards, Nia Jones, Ellie Dimmack, Josh Sitch Yn eu cyfarfod cyntaf, etholwyd Becky yn Gadeirydd, Owain yn Is Gadeirydd, Ellie yn Ysgrifennydd a Josh yn Drysorydd. Llongyfarchiadau i'r uchod ac i bawb a ddangosodd ddiddordeb i ymgeisio ar gyfer y Cyngor.

### Clwb gwau / gwnïo

Yn dilyn gweithgareddau Celf a Chrefft yr Urdd, gwnaethpwyd cais gan nifer o rieni i gychwyn clwb gwau / gwnïo wythnosol. Cafwyd cyfarfod cyntaf y clwb a daeth nifer dda o ffrindiau a rhieni i redeg a chynorthwyo. Rydym yn anelu i greu arteffactau ac eitemau i'w gwerthu yng ngweithgareddau amrywiol o fewn yr ysgol. Mae'r clwb yn rhedeg yn wythnosol ar nos Fawrth o 3-30 p.m. hyd 4-30 p.m. Os oes gennych ddiddordeb i gynorthwyo, neu i gynnig adnoddau nad ydych eu hangen, cysyllwch a Miss Owens yn yr ysgol.

### Ty Gwydr newydd

Yn ddiweddar, gofynnwyd i un o'r tadau i adeiladu tŷ gwydr a brynwyd gyda'r tocynnau Morrison's a gasglwyd gan yr ysgol. Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd docynnau.
Pan ddaeth Michael Lowe ati i gychwyn y dasg, roedd yn ymwybodol o'r dasg ac y byddai'n sialens! Bu'n rhaid iddo ail wneud rhai o'r adrannau. Dywedodd Michael "nid oedd rhai o'r cyfeiriadau yn gwneud unrhyw synnwyr. Bu'n rhaid felly dibynnu ar y deiagramau!" O fewn ychydig o ddiwrnodau, roedd yn edrych yn debyg i dŷ gwydr. Yn anffodus, roedd llawer o waith yn dal i'w gwblhau.
Pan gychwynodd yr ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg, bu'n rhaid i Michael alw'n rheolaidd i'r ysgol i gwblhau'r gwaith Yna, ar ôl ei orffen, sylweddolodd fod angen ei roi i mewn i sement yn y ddaear cyn paratoi gwelyau y tu mewn iddo. Ar ôl cwblhau'r holl waith, bu un o'r staff yn ddigon dewr i ofyn iddo a fydda'i fodlon adeiladu silffoedd! Erbyn hyn Rydym wedi cychwyn plannu blodau a llysiau yn y ty gwydr ac fe'i welwch ar dir yr ysgol.
**Y Pwyllgor Eco.**



Seren Jenkins a ddaeth yn gyntaf a Charlotte Ralphs a ddaeth yn ail yn Eisteddfod Genedlaethol Celf a Chrefft yr Urdd.



Enillwyr gwobrau cyntaf, ail a thrydydd yn Eisteddfod Celf a Chrefft yr Urdd, Rhanbarth Ceredigion.



Sali Mali wrthi'n sgwrsio gyda disgyblion y Cyfnod Sylfaen


RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Ymweliadau a Gweithgareddau

Dyfeisio a Darganfod.
Cafwyd ymweliad arall gan Mr Eifion Collins ar y 20fed a'r 21ain o Ebrill. Mae Mr Collins yn ymweld â'r ysgol ddwywaith y flwyddyn er mwyn datblygu sgiliau technoleg a gwyddonol y plant. Mae'r plant yn mwynhau cwblhau'r tasgau yn fawr iawn ac y mae gweithgareddau Mr Collins yn parhau i fod yn hynod o ddifyr.

Penwythnos yn Llangrannog
Ar y 23ain o Ebrill fe deithiodd 27 o blant blynyddoedd 5 a 6 i wersyll yr Urdd, Llangrannog am y penwythnos er mwyn cymdeithasu a chael llwyth o hwyl a sbri. Bu'r plant yn brysur iawn yn ystod y cyfnod yn mwynhau nifer o weithgareddau amrywiol. Ar ôl y penwythnos, dychwelodd y plant i'r ysgol yn flinedig ond yn hapus iawn.

## Cyw

Ar y 27ain o Ebrill, fe ddaeth bws Cyw i ymweld â'r ysgol; cafodd plant y dosbarth Meithrin, y dosbarth Derbyn a blynyddoedd 1 a 2 gyfle i fwynhau amryw o weithgareddau ar y bws a chwrdd â nifer o gymeriadau'r rhaglen boblogaidd hon.

## Beicio

Mae blwyddyn 6 bellach wedi cwblhau yr hyfforddiant beicio ac agweddau amrywiol o ddiogelwch ar y ffordd. Maent hefyd wedi wynebu prawf ymarferol ac ysgrifenedig. Hoffai'r ysgol ddiolch i Mr Malcolm Charlton am ei gymorth a'i gyngor hanfodol.

## Cystadleuaeth Knex

Fe aeth cnewyllyn o blant o flwyddyn 5 a 6 i adeilad Stat Craft yng Nghwmrheidol yn ddiweddar er mwyn cystadlu yng nghystadleuaeth knex o dan ofal 'Gyrfaon Cymru'. Tasg y dydd oedd cynllunio a chreu melin wynt effeithiol. Ar ôl meddwl, cynllunio ac adeiladu; enillwyr y dydd oedd Lily Sedgwick a Michael Gwillim. Mi fydd y ddau yn symud ymlaen i'r rownd nesaf. Pob Lwc iddynt.

## Garddio

Cafodd gardd yr ysgol gymorth arbennig yn ddiweddar pan ddaeth Mr Tudor Gethin i gynnig help llaw i rai o blant yr ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch i Mr Gethin am roi ei amser prin i ni a gobeithio fydd pob planhigyn yn tyfu'n iach!

## Chwaraeon

Ar yr 20fed o Ebrill, bu tîm pêl-droed bechgyn a merched yr ysgol yn cystadlu ym mhencampwriaeth Yr Urdd ar gaeau Blaendolau. Cystadleuaeth rhwng holl ysgolion Ceredigion oedd hon; ac yr oedd ansawdd y pêl-droed o'r safon uchaf.
Ar ddiwedd y dydd ac ar ôl ennill pob gêm, llwyddodd y merched i gyrraedd y rownd derfynol ble cafwyd gêm gyfartal yn erbyn Yr Ysgol Gymraeg. O ganlyniad i hyn, bu'n rhaid dioddef ciciau o'r smotyn, ac yn anffodus colli'n greulon oedd hanes y merched.

## Hen dro!

Chwaraeodd y bechgyn yn dda iawn hefyd gan ddod i'r brig mewn grŵp anodd iawn; aethant ymlaen i'r rownd go gyn-derfynol gan guro'r Ysgol Gymraeg o dair gôl i ddim, curo Myfennydd o dair gôl i ddwy yn y rownd gyn-derfynol a chwrdd ag ysgol Aberaeron yn y rownd derfynol. Er i'r bechgyn chwarae'n neilltuol o dda colli o ddwy gôl i un oedd yr hanes. Llongyfarchiadau mawr i chwaraewyr y ddau dîm am eu hymdrechion ardderchog.

## Noson Agored

Cynhaliwyd noson agored yn yr ysgol ar y 26ain o Ebrill. Cafodd y rhieni gyfle i weld gwaith y plant a chael sgwrs adeiladol gyda'r athrawon.

## Gwefan yr Ysgol

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau cliciwch ar www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk


Tîm pêl-droed merched yr ysgol. (Roedd Megan Mason yn absennol).


Garddio gyda Tudor Gethin


Tîm pêl-droed bechgyn yr ysgol.

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

oriel Tir a Môr gallery
O dan y môr a'i donnau, Mae llawer dinas dlos, Fu'n gwrando ar y clychau Yn canu gyda'r nos.
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Ffràmio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT PENRHYN-COCH ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth 820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

# TASG Y TINCER


Mirain Gregory

Druan â'r tedi oedd wedi cael ei ddal mewn cawod o law y mis diwethaf! Tri yn unig roddodd gynnig ar liwio'r llun y tro hwn. Mae'n siwr eich bod yn rhy brysur yn chwarae tu allan i fod mewn yn lliwio, ond roedd gwaith y tri wnaeth drio yn dda dros ben. Diolch i ti Mirain Gregory, Y Dderi, 6 Llwyn Afallon, Aberystwyth, Elin Pierce Williams, 46 Bryncastell, Bow Street, a Carwyn Davies, Cynon Fawr, Llanfihangel y Creuddyn. Ti, Mirain sy'n cael y wobr y tro hwn. Roeddwn yn hoffi lliwiau'r ymbarel!

Faint ohonoch chi welodd fws Cyw yn iard Ysgol Rhydypennau ar ddiwedd y mis? Am syrpreis braf! Rwy'n siwr fod sawl un ohonoch wedi mwynhau sgwrsio efo Sali Mali. Un peth arall pwysig a ddigwyddodd ar ddiwedd Ebrill oedd Eisteddfod Penrhyn-coch. Fuoch chi'n cystadlu? 'Fallai fod rhai ohonoch wedi bod yn ysgrifennu stori, neu'n canu. Gobeithio na ddaru chi gael cam, ac i chi fwynhau'r profiad.

Rwy'n siwr bod pob un ohonoch chi blant ardal y Tincer yn gwybod beth sy'n digwydd yn Llanerchaeron, ger Aberaeron, cyn bo hir. Eisteddfod arall y tro hwn. Ie, dyna chi, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Mae ysgolion yr ardal yn drwch o fflagiau coch gwyn a gwyrdd ers tro, ac mae plant o bob rhan o Gymru'n paratoi ers misoedd i ddod i Ddyffryn Aeron. Rwy'n edrych ymlaen at fynd i grwydro maes yr Eisteddfod ac i daro mewn i wylio rhai o'r cystadlaethau. Bydd rhai o ddarllenwyr y tudalen hwn yn cymryd rhan mewn sawl peth, rwy'n sicr! Hyd yn oed os nad ydech chi'n cystadlu mae'r Eisteddfod yn lot fawr o hwyl. Gobeithio bydd y tywydd yn garedig ac y bydd yn braf trwy'r cyfnod i gyd. Does dim byd gwaeth na bod mewn welis trwy'r wythnos! Mae'r Eisteddfod yn gyfle arbennig i weld hen ffrindiau, a gwneud rhai newydd, wrth gwrs. Mae sawl peth yn digwydd ar y maes, gan gynnwys chwaraeon o bob math, arddangosfeydd, a digon o bethau i'w gweld a'u prynu. Mae sôn bod pwll canwio yn mynd i fod ar y Maes eleni! Rwy'n gobeithio prynu hwdi Mr Urdd, gan fy mod yn hoff iawn o'r cymeriad bywiog hwnnw. Ydech chi'n hoffi Mr Urdd? Wyddoch chi ei fod dros ei 30 oed?! Mae wedi teithio ledled Cymru, a hyd yn oed wedi bod i'r gofod! Y mis hwn, beth am liwio'r llun o Mr Urdd? Mae wedi pacio ei fag yn barod ar gyfer ei wyliau yn Llanerchaeron. Rwy'n siwr bod pob un ohonoch yn gwybod beth yw lliwiau Mr Urdd, ond a ydych yn cofio trefn y lliwiau tybed?

Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Mehefin 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion, SY24 5DE. Ta ta tan toc, a mwynhewch y 'Steddfod. Wela'i chi yn Llanerchaeron!



Enw

Cyfeiriad

Oed Rhif ffôn

Llety
Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig . Teledu . Te a choffi .
Wi Fi am ddim . Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Gwasanaeth glanhau duvets plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
Rhif 329 | MAI 2010